# CA3 - GWEITHGAREDDAU

**Gweithgaredd 3 – Celf – Gwrando, Deall a Thrawsieithu, Gwerthuso gwaith arlunydd a Thrafod celf fel gyrfa**

Gwyliwch y fideo Saesneg: **Jeff Phillips, Artist**.

https://www.youtube.com/watch?v=4Fjt2iu4-EE

Atebwch y cwestiynau canlynol **yn Gymraeg**:

1. Beth roedd Jeff Phillips yn ei wneud cyn dod yn arlunydd?

2. Beth mae'n ei awgrymu i berson ifanc sydd eisiau dod yn arlunydd?

3. Beth mae'n ei ddefnyddio ar gyfer y paentiad o Dylan y tu allan i Westy Brown's yn Nhalacharn?

**Pwyntiau trafod:**

- Beth yw eich barn am waith Jeff Phillips? Pam rydych chi'n meddwl hyn? (*Gellid rhewi'r sgrin ar adegau penodol yn y fideo er mwyn trafod paentiadau/lluniau unigol. Mae enghreifftiau pellach o'i waith ar y wefan.)*

- Beth ddysgoch chi o wylio Jeff Phillips yn creu'r paentiad o Dylan y tu allan i Westy Brown's?

- Trafodwch a yw Jeff Phillips wedi gwneud penderfyniad doeth ai peidio wrth ganolbwyntio ei waith ar Dylan Thomas.

# Cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd:

## Llafaredd

**Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**
**Siarad**

**Blwyddyn 7**

- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 8**

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

**Blwyddyn 9**

- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun